

GWEMINAR – CYFLOGADWYEDD, MATHEMATEG 2023

BYWGRAFFIADAU

Gareth Lanagan

Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion yw Gareth i'r Awdurdod Lleol Ceredigion, ers 2021. Mae Gareth yn cydweithio â'r saith ysgol Uwchradd a gydol oed ar draws y sir ac yn arwain ar agweddau megis Seren, Cymwysterau ac Addysgeg i'r awdurdod a'r rhanbarth ar draws y Canolbarth.



Astudiodd Gareth yn Aberystwyth, gyda mathemateg yn ffocws i'w amser yna. Dechreuodd gyda gradd ym Mathemateg, cyn gwneud cwrs Meistr ar agweddau ymarferol o fathemateg cyn symud i wneud Doethuriaeth ar y tywydd. Cyllidwyd y ddoethuriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac fel rhan o'r Cyllid, darlithiodd Gareth yn yr adran fathemateg i fyfyrwyr oedd yn astudio trwy'r Gymraeg.

Yn ystod ei doethuriaeth, gweithiodd Gareth fel arbenigwr y tywydd i'r BBC a S4C. Yn dilyn ennill ei ddoethuriaeth, weithiodd fel darlithydd mathemateg yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, cyn symud i fod yn rheolwr Lefel A. Cyn dechrau'r rôl gyda Cheredigion fel Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, roedd yn arwain prosiect e-sgol ar draws Cymru.

Llio Marian Davies


Chwilog ger Pwllheli yw cartref genedigol Llio. Fe raddiodd o Brifysgol Aberystwyth yn haf 2022 gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg. Cafodd dair blynedd arbennig iawn yn Aberystwyth gan wir fwynhau'r cwrs, ond hefyd elwa ar brofiadau gwerthfawr tu allan i'r cwrs, trwy'r Undeb Myfyrwyr Cymraeg a gydag Aelwyd Pantycelyn.



Bellach mae Llio yn gweithio fel Darlithydd yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yn dysgu Mathemateg a Mathemateg Bellach Safon Uwch, ac yn derbyn hyfforddiant ymarfer dysgu trwy'r Coleg. Yn ei hamser rhydd, mae Llio yn mwynhau canu'r piano a mynd am dro o gwmpas Chwilog a'r cyffiniau.

Dafydd Griffith

Yn wreiddiol o Waunfawr yng nghyffiniau Caernarfon, mynychodd Dafydd Ysgol Brynrefail yn Llanrug, ac yna astudio cwrs Mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth o 2012 hyd at 2016. Cymhwysodd Dafydd gyda gradd MMath. Gyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cafwyd yr hwb i astudio rhan o'r radd drwy gyfrwng y Gymraeg ac fe wnaeth hyn alluogi gwneud arholiadau a thraethodau trwy gyfrwng y Gymraeg.



Erbyn hyn mae Dafydd yn gweithio ym mhreactis cyfrifeg WJ Matthews a'i Fab yng Nghaernarfon ac yn cymhwyso fel cyfrifydd siartredig. Mae'r sgiliau mathemategol a gronnwyd yn y brifysgol (yn ogystal â'r sgiliau ieithyddol) wedi darparu sylfaen gref i'w alluogi i addasu i'r byd proffesiynol.

Heledd Rees

Mae Heledd Rees yn Brif Ystadegydd i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac ar hyn o bryd yn gweithio fel Swyddog Cyswllt Datganoledig i Gymru. Fel rhan o'r swydd yma, mae Heledd yn gweithio'n agos gyda thimoedd ystadegol Llywodraeth Cymru, Data Cymru a'r awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth effeithiol o ystadegau i Gymru. Er bod y swyddfa wedi ei leoli yng Nghasnewydd, mae Heledd yn manteisio ar y dull hybrid o weithio ac yn gweithio'n bennaf o'i chartref priodasol ger Crymlych, Sir Benfro.



Dechreuodd Heledd ei thaith mewn addysg yn Ysgol Gynradd Talylychau ac yna Ysgol Gyfun Tregib, ger Llandeilo. Cyn dilyn gyrfa mewn ystadegau, bu Heledd yn astudio cwrs israddedig ym Mathemateg ac yna cwrs ôl-raddedig mewn ystadegau ym Mhrifysgol Caerdydd.

Sioned Owen

Mae Sioned yn gweithio fel Uwch Ddadansoddwr Partneriaeth (Partnership Senior Analyst) i Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro (BPRh). Fel rhan o'i swydd mae hi'n cydweithio ac yn dadansoddi data Awdurdodau Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y trydydd sector, y sector annibynnol a chynrychiolwyr gofalwyr. Pwrpas y gwaith yw deall y sefyllfa ac i gynorthwyo datblygiadau yng ngwasanaethau iechyd a gofal Caerdydd a'r Fro.



Cafodd ei haddysg yn Ysgol Glan y Môr Pwllheli cyn symud ymlaen i Goleg Meirion Dwyfor ar gyfer Lefel A. Yno astudiodd Mathemateg, Cemeg a Hanes. Bu yn y Brifysgol yng Nghaerdydd ac fe raddid yn 2020 gyda gradd meistr mewn

mathemateg. Cafodd ei swydd gyntaf fel rheolwr swyddfa i gwmni technoleg cyn ymuno gyda BPRh yn Haf 2021.